Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Nodyn ymweliad

# Rheoli ymddygiad mewn pedair ysgol yn Sir Benfro

## Gorffennaf 2012

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | **1** |
| **Polisïau ac arweiniad ar ddiogelu a rheoli ymddygiad** | **2** |
| **Defnyddio adeiladau** | **4** |
| **Cadw cofnodion ac adrodd** | **5** |
| **Dealltwriaeth staff o reoli ymddygiad** | **7** |
| **Safbwyntiau disgyblion ar reoli ymddygiad** | **7** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Y tîm arolygu** | **9** |

## Cyd-destun

Ddydd Mawrth 3 Gorffennaf a dydd Mercher 4 Gorffennaf 2012, ymwelodd dau arolygydd o Estyn ac un arolygydd o AGGCC yn annisgwyl â dwy ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd yn Sir Benfro. Rhoddwyd adborth llafar i bob ysgol ar ddiwedd yr ymweliad, wedi'i ddilyn gan lythyr, a amlygodd unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith a nodweddion da a meysydd i'w datblygu. Rhoddodd arolygwyr adborth i swyddogion yr awdurdod lleol ar ddiwedd yr ymweliadau hefyd.

Cynhaliwyd yr ymweliadau i ymateb i bryderon ynglŷn â defnyddio ystafelloedd seibiant ar gyfer tynnu disgyblion o ddosbarthiadau yn Sir Benfro. Mae'r adroddiad yn cyfeirio droeon at ddefnyddio 'seibiant'. Mae'r term hwn yn cynnwys rhai o'r strategaethau a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg fel rhan o'u 'pecyn canllawiau' rheoli ymddygiad, ac y gellir eu defnyddio fel rhan o gynllun cymorth ymddygiad. Nid oes diffiniad ffurfiol o 'seibiant'. Fodd bynnag, byddai fel arfer yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- rhoi amser a lle o'r dosbarth i ddisgyblion er mwyn iddynt beidio â chynhyrfu a rheoli eu hemosiynau;
- atal disgybl rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd nes ei fod/bod yn rhoi'r gorau i ddangos ymddygiad digroeso ac ymgysylltu'n briodol;
- gofyn neu roi cyfarwyddyd i ddisgybl adael gweithgaredd a dod yn ôl pan fydd yn teimlo'n barod i gymryd rhan, a rhoi'r gorau i ymddwyn mewn modd sy'n destun pryder; a
- cael staff addysgu neu staff cymorth i fynd gyda'r disgybl i leoliad arall i'w (h)atal rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd am gyfnod penodol.

Hap wiriadau o'r trefniadau mewn sampl fach o ysgolion oedd yr ymweliadau, ac fe'u cynlluniwyd i roi sicrwydd ynglŷn â rheoli ymddygiad yn Sir Benfro. Dewiswyd yr ysgolion i gynnwys y sectorau cynradd ac uwchradd a chynnwys ysgolion sydd â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Polisïau ac arweiniad ar ddiogelu a rheoli ymddygiad

At ei gilydd, mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu, ac mae gan staff ddealltwriaeth glir o sut i wneud cyfeiriadau amddiffyn plant. Mae pob un o'r ysgolion hyn wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth am yr angen am bolisïau ac arferion cyson o ran diogelu. Caiff staff hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar haen un neu haen dau. Mae pob un o'r ysgolion yn cymryd rhan mewn proses amlasiantaethol, ac mae staff yn mynychu cynadleddau achosion amddiffyn plant a grwpiau craidd.

Mae gan bob un o'r ysgolion hyn bolisïau ar gyfer gwneud cyfeiriadau o ran cam-drin proffesiynol. Yn yr arfer orau, mae staff yn rhoi sylw da i asesiadau risg a dychwelyd i'r gwaith gyda chymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws ysgolion eto. Nid yw penaethiaid yn cael gwybod am gynnydd yr ymchwiliadau bob amser. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cael yr holl wybodaeth sydd ar gael i'w helpu i reoli unrhyw risgiau posibl yn y dyfodol os yw'r aelod o staff yn dychwelyd i'r ysgol.

Nid yw'r polisïau sy'n rheoli'r defnydd o gyfleusterau ar gyfer 'seibiant' a thynnu allan o'r dosbarth mewn perthynas ag ymddygiad yn gyson. Mewn dwy o'r pedair ysgol, mae plant sy'n camymddwyn weithiau'n treulio amser mewn ystafelloedd nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion tynnu allan o wersi neu 'seibiant'. Nid yw cofnodion bob amser yn dangos faint o'r gloch yr anfonwyd y disgybl allan o'r dosbarth, am faint o amser, ble'r oedd ef/hi a phwy oedd yn goruchwylio. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff ddweud gydag unrhyw sicrwydd yn ddiweddarach nad oedd disgybl yn gysylltiedig ag achos yn yr ysgol ac, o'i chwmpas, neu yn y gymuned, na darparu tystiolaeth pe bai honiad o gŵn gan rieni neu ofalwyr. O bryd i'w gilydd, eir â disgyblion unigol sydd wedi'u cynhyrfu neu'n flin ac yn camymddwyn allan o'r dosbarth ac fe gânt eu goruchwylio gan aelodau unigol o staff. Ni chaiff disgyblion eu goruchwylio bob amser mewn mannau lle gall aelodau eraill o staff eu gweld nhw neu'r aelod o staff. Er nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw achos pryder, nid yw'r agwedd hon ar oruchwylio plant sy'n cael 'seibiant' yn rhoi ystyriaeth lawn i weithdrefnau diogelu na dangos arfer orau ar gyfer amddiffyn disgyblion a staff.

Yn y pedair ysgol yr ymwelwyd â nhw, rhoddir pwyslais cryf ar reoli a gwella ymddygiad. Mae rheolwyr yn cydnabod bod disgyblion sy'n ymddwyn yn ddrwg yn aml yn anesmwyth, yn wynebu heriau anodd gartref ac angen cymorth ychwanegol. Mae un ysgol yn ariannu tîm cymorth bugeiliol sydd ar gael trwy gydol y dydd i gefnogi staff a disgyblion. Yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, gwneir defnydd da o strategaethau fel defnyddio matiau meddwl ac amseryddion wy er mwyn i ddisgyblion allu gweld faint o amser y mae'n ei gymryd iddynt adennill rheolaeth. Gall disgyblion weld y cynnydd y maent yn ei wneud i leihau'r amser a gymerir i ymdawelu yn ystod unrhyw achosion yn y dyfodol. Mae staff yn defnyddio gwobrau ymddygiad dosbarth cyfan hefyd i annog disgyblion i reoli a safoni eu hymddygiad eu hunain.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae polisïau ymddygiad yn gwneud nodau'r ysgolion yn glir ac yn canolbwyntio ar yr ymddygiad cadarnhaol y maent yn dymuno'i hyrwyddo. Mae polisïau'n amlinellu'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r athrawon a'r hyn y mae angen i

athrawon ei wneud i ennyn parch a chydweithrediad disgyblion. Mae dau bolisi da yn rhestru ymddygiadau penodol y dylai athrawon eu hosgoi, fel coegni a gweiddi. Atgoffir staff i feirniadu'r ymddygiad sy'n annerbyniol yn hytrach na'r disgybl a pheidio â chyfeirio at frodyr a chwiorydd y disgybl. Fodd bynnag, nid yw pob polisi'n datgan pa gymorth fydd ar gael i staff yn dilyn digwyddiad anodd.

Mae pob un o'r polisïau'n amlinellu camau cynyddol y dylai staff weithio trwyddynt i roi cyfleoedd i ddisgyblion gofidus fynd yn ôl ar y llwybr cywir a dychwelyd at eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw staff yn dilyn y polisïau hyn yn gyson bob amser. Mae anghysondebau'n cynnwys:

- anfon disgyblion allan o'r ystafell ddosbarth heb wneud yn siŵr ei fod/bod yn gweithio mewn man dynodedig;
- anwybyddu defnydd disgyblion o ffonau symudol, sy'n mynd yn groes i reolau'r ysgol; a
- defnyddio ffurflenni achosion difrifol yn amhriodol ar gyfer mân gamweddau.

Nid yw'r iaith a ddefnyddir gan staff i ddisgrifio ymddygiadau disgyblion a'r trefniadau ar gyfer cosbi bob amser yn briodol neu'n cyd-fynd ag ethos cadarnhaol y polisïau. Er enghraifft, mewn un achos, cyfeiriodd disgyblion a staff at y grŵp sy'n aros i gael eu cosbi fel bod yn y 'blwch cosbi' ('sin bin').

Pan fydd disgyblion yn camymddwyn ac yn gorfod gadael yr ystafell ddosbarth, rhoddir gwaith iddynt ei wneud fel arfer. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'u cwricwlwm bob tro. Er enghraifft, gofynnir i rai disgyblion gwblhau tasgau ar lefel isel fel rhwygo papur. Yn yr ysgolion uwchradd, mae staff yn fwy tebygol o osod gwaith sy'n briodol. Mewn un uned gyfeirio mewn ysgol uwchradd, caiff aelod o staff ei hyfforddi i roi cymorth gwerthfawr gyda llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae gan bob un o'r ysgolion bolisïau sy'n ymdrin â beth i'w wneud pan fydd yn rhaid i athrawon ymyrryd yn gorfforol i ddiogelu'r disgybl ei hun neu ddiogelwch pobl eraill. Gelwir hyn yn 'ymdriniaeth gadarnhaol'. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau hyn bob amser yn rhoi digon o esboniad ynglŷn â'r hyn y gall athrawon ei wneud a'r hyn na allant ei wneud mewn argyfwng nac yn ei gwneud yn glir sut y dylid ymdrin ag unrhyw gwynion dilynol. Mae staff yn llai cyfarwydd â'r polisïau ymdriniaeth gadarnhaol hyn na gyda pholisi ymddygiad eu hysgol. Nid yw pob un o'r ysgolion wedi rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y polisïau hyn.

Mae pob ysgol wedi cyflwyno Addysgu Tîm, a argymhellwyd gan awdurdod lleol Sir Benfro ac maent yn hyfforddi eu staff ynghylch ei roi ar waith. Mae'r hyfforddiant Addysgu Tîm wedi'i achredu gan Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain (BILD) ac mae wedi'i gynllunio i leihau pryder, risg ac ataliad. Mae gan un ysgol ddau diwtor hyfforddedig sy'n rhaeadru technegau i staff eraill. Mae hyn yn cynyddu capasiti'r ysgol i hyfforddi staff ychwanegol ac yn sicrhau bod cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd yn cael ei achosi gan staff yn mynychu hyfforddiant allanol.

Ym mhob un o'r ysgolion, rhoddir gwybod yn dda i rieni a gofalwyr am ymddygiad eu plant. Maent yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am y math o gymorth y gellir ei gynnig i'w plentyn.

## Defnyddio adeiladau

Roedd y rhan fwyaf o’r cyfleusterau ffisegol a ddefnyddir ar gyfer ‘seibiant’ fwy neu lai’n ddigonol yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ym mhob un o’r pedair ysgol o ran adeiladau, ac o ganlyniad, defnyddir rhai ystafelloedd amhriodol i ddisgyblion weithio mewn grwpiau bach neu’n unigol. Yn ystod yr ymweliadau, adroddwyd yn ôl wrth ysgolion penodol am rai problemau iechyd a diogelwch posibl, yn cynnwys storio deunyddiau glanhau neu nwyddau trydanol mewn ystafelloedd y mae disgyblion yn eu defnyddio’n achlysurol a ffenestr agored a oedd yn ddigon llydan i rywun ddringo i mewn. Ar ambell achlysur, roedd athrawon wedi gwneud newidiadau i’r defnydd a wneir o ystordai heb roi gwybod i reolwyr yr ysgol.

Mewn un ysgol, roedd adeilad ar gyfer y rhaglen annog, sef ymyrraeth ddwys i gefnogi disgyblion agored i niwed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol a/neu ymddygiadol, wedi’i oleuo’n llachar. Roedd disgyblion yn gweithio mewn amgylchedd cadarnhaol iawn mewn ystafelloedd eang gydag offer da a dodrefn meddal priodol. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir am leoedd eraill. Roedd rhai ystafelloedd wedi cael eu trawsnewid ar gyfer eu defnyddio gan ddisgyblion o leoedd storio ac maent yn fach heb ffenestri.

Mae ystafelloedd synhwyraidd ac ystafelloedd tawel ym mhob un o’r ysgolion, ond mae eu haddasrwydd ar gyfer disgyblion yn amrywiol. Mewn un uned arbennig, lle gwelir arfer arbennig o dda, mae staff yn annog disgyblion i ddefnyddio’r ystafelloedd tawel os bydd angen iddynt ymdawelu neu gael lle i fyfyrio. Defnyddir yr ystafelloedd hyn dim ond pan fydd y disgybl yn dewis eu defnyddio, ac fe gaiff ymddygiad heriol ei reoli yn yr ystafell ddosbarth fel arfer yn hytrach na thrwy wahardd y disgybl. O ganlyniad, nid oes gan yr ystafelloedd tawel hyn unrhyw arwyddocâd negyddol i’r plant. Mae’r uned hon yn defnyddio’i hystafelloedd synhwyraidd at ddibenion symbylu, ac mae pawb yn glir ynglŷn â’r hyn sy’n digwydd ym mhob ystafell. Fodd bynnag, mewn ysgolion eraill, defnyddir ystafelloedd synhwyraidd at ddibenion symbylu, ‘seibiant’ a chwarae. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cael negeseuon cymysg am ddefnyddio’r ystafelloedd hyn, ac mae’n annhebygol y byddant yn cael dealltwriaeth glir o sut a phryd y byddant yn defnyddio’r ystafell.

## Cadw cofnodion ac adrodd

At ei gilydd, mae ansawdd a nifer y cofnodion a gedwir mewn perthynas ag ymddygiad yn amrywio rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, mae gan ysgolion gofnodion addas o'r modd y maent yn rheoli ymddygiad heriol disgyblion unigol a manylion am achosion sy'n digwydd, ond mae'r defnydd a wneir o wybodaeth felly yn anghyson ar draws yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae ysgolion yn defnyddio cofnodion ymddygiad yn briodol i nodi cymorth ar gyfer disgyblion unigol. Yn yr arfer orau, defnyddir data ymddygiad i:

- olrhain gwelliannau yn ymddygiad disgyblion;
- monitro'r cosbau a roddir i ddisgyblion i nodi tueddiadau neu batrymau; ac
- arfarnu gwerth am arian rhaglenni cymorth bugeiliol.

Fodd bynnag, hyd yn oed pan wneir defnydd da o ddata ymddygiad ar gyfer disgyblion unigol, nid yw ysgolion yn defnyddio'r data hwn yn ddigon da bob amser i arfarnu effeithiolrwydd strategaethau ysgol gyfan neu gynllunio ar gyfer gwella.

Mewn tair o'r pedair ysgol, caiff disgyblion eu tynnu o wersi neu'u hanfon allan o'r amgylchedd dosbarth arferol fel rhan o strategaeth yr ysgol ar gyfer rheoli ymddygiad. Pan fydd hyn wedi'i drefnu ai reoli'n dda, mae rhesymwaith clir ar gyfer defnyddio'r man seibiant, ac fe gedwir cofnodion manwl i ddangos pryd, sut a chan bwy y defnyddiwyd y man hwn. Fodd bynnag, ar nifer o achlysuron yn ystod yr ymweliad monitro, cafodd y mannau hyn eu defnyddio mewn tair o'r ysgolion i reoli disgyblion ag ymddygiad heriol, ac nid oedd cofnodion yn cael eu cadw o'u defnydd. Yn ogystal â goblygiadau iechyd a diogelwch y diffyg hwn o ran cadw cofnodion, ni all ysgolion olrhain faint o amser cwricwlwm y mae disgyblion yn ei golli neu i nodi patrymau neu sbardunau mewn ymddygiad.

Mae pob un o'r ysgolion wedi datblygu neu ddiweddaru gweithdrefnau ymdriniaeth gadarnhaol yn ddiweddar, sy'n cynnwys cofnodi ymyrraeth ac ataliad corfforol. Yn yr ysgolion cynradd, mae'r cofnodion hyn yn eithaf manwl, er bod rhywfaint o anghysondeb mewn ysgolion ynglŷn â'r hyn y dylid ei gofnodi. Mae'n anodd llunio barnau am ansawdd y cofnodi yn y ddwy ysgol uwchradd am fod uwch arweinwyr yn datgan bod achosion lle mae angen defnyddio ymyrraeth ac ataliad corfforol yn brin iawn ac nid oes unrhyw achosion wedi'u cofnodi gan ddefnyddio'r systemau cofnodi newydd. Fodd bynnag, er bod uwch reolwyr yn yr ysgolion hyn yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw cofnodion wrth sicrhau diogelwch disgyblion a staff, nid oedd achosion o gyswllt corfforol, fel gwahanu disgyblion sy'n ymladd, yn cael eu cofnodi bob amser. Gwelwyd enghreifftiau o gadw cofnodion yn dda ar ymyrraeth gorfforol yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn un o'r ysgolion uwchradd. Nid yw pob ysgol yn rhoi adroddiadau ysgrifenedig i lywodraethwyr ar natur a nifer yr achosion o ymdriniaeth gadarnhaol. Er nad yw'n ofyniad, mae'n arfer dda i lywodraethwyr gael rôl mewn adolygu ac arfarnu polisïau ymddygiad a deall faint o achosion o ymdriniaeth gadarnhaol sy'n digwydd yn yr ysgol.

Mae pob un o'r ysgolion yn gwneud defnydd da o gynlluniau ymdriniaeth gadarnhaol lle bydd angen. Fodd bynnag, ni chaiff y cynlluniau hyn eu cofnodi yn ffeiliau addysg disgyblion, eu diweddaru'n rheolaidd, eu llofnodi a'u dyddio gan y pennaeth bob

amser, ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion i gael eu monitro'n ddigonol chwaith. Nid yw staff yn llenwi'r adran ar gamau nesaf yn gyson bob amser. Mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar ymateb y disgybl i'r digwyddiad tra bydd rhai eraill yn canolbwyntio ar sut i osgoi achosion yn y dyfodol. Mewn un ysgol, mae pob un o'r staff yn darllen cynlluniau ymdriniaeth gadarnhaol disgyblion er mwyn iddynt allu atal anawsterau yn yr ysgol ac o gwmpas yr ysgol ymlaen llaw, cyn iddynt waethygu i fod yn achosion mwy difrifol.

Mae ansawdd y cofnodion a gedwir ar gyfer 'seibiant', fel y cânt eu defnyddio ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant nad ydynt yn ymddwyn yn dda, yn anghyson ar draws yr ysgolion. Yn yr arfer orau mewn un uned arbennig, cedwir cofnodion o ddefnydd y plant o ystafelloedd tawel ar sail arsylwadau pum munud. Fodd bynnag, mewn ystafelloedd tawel eraill, nid oes unrhyw bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion yn ofalus.

Mae'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw wedi dechrau defnyddio data i ddadansoddi ble mae angen iddynt gynnig mwy o gymorth i ddisgyblion a staff a nodi sbardunau yn ystod y diwrnod ysgol, pan mae angen i staff fod yn wyliadwrus iawn. Mae'r ddwy ysgol yn cofnodi pa mor aml y caiff disgyblion unigol eu cosbi a'r math o gosb y dylent ei chael. Mewn un ysgol, caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi gan grwpiau o ddisgyblion, fel plant sy'n cael gofal, gofalwyr ifanc a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y wybodaeth werthfawr hon ei throsglwyddo i benaethiaid blwyddyn, adrannau pwnc a chanolfannau cymorth. O ganlyniad, gall rheolwyr canol dargedu gwelliannau. Nid yw'r ysgolion cynradd wedi dechrau dadansoddi cofnodion ymddygiad na chwilio am dueddiadau, patrymau a sbardunau er mwyn i staff allu gwella'r ffordd y maent yn rheoli ymddygiad disgyblion.

Mewn perthynas â diogelu, mae pob un o'r pedair ysgol yn defnyddio'r ffurflenni cyfeirio amlasiantaethol priodol, ac fe gedwir cofnodion yn ddiogel. Fodd bynnag, mae safonau'r cofnodion a gedwir ar gyfer diogelu yn amrywiol. Nid oes gan ysgolion ffordd safonol o gadw cofnodion ar blant, ac ni chaiff y cofnodion eu storio'n ganolog bob amser. Mae hyn yn golygu ei bod yn anos i staff adnabod patrwm cyffredinol mewn materion sy'n codi gyda disgybl penodol.

## Dealltwriaeth staff o reoli ymddygiad

Mae staff a gafodd eu cyfweld yn wybodus ar y cyfan am strategaethau ymddygiad yr ysgolion, ac maent yn teimlo’n hyderus i reoli ymddygiad heriol oherwydd yr ethos tîm cefnogol ym mhob ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio technegau i leihau nifer y sefyllfaoedd pan fo disgyblion yn dangos lefelau uchel o bryder neu ddicter. Mae staff yn deall pwysigrwydd creu amgylchedd tawel, trefnus a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo’n hyderus bod staff yn delio â’u hymddygiad yn deg a chyson.

Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr yn mynd ati’n ddigon trylwyr i fonitro’r ffordd y caiff polisïau ymddygiad eu rhoi ar waith o ddydd i ddydd ym mhob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. O ganlyniad, nid ydynt yn ymwybodol o feysydd arfer nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi, er enghraifft, lle na chaiff achosion o ‘seibiant’ eu cofnodi’n ddigon manwl.

Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda disgyblion ag anawsterau ymddygiad neu staff sy’n delio’n uniongyrchol ag achosion, wedi cael eu hyfforddi’n briodol mewn rheoli ymddygiad cadarnhaol ac ymdriniaeth gadarnhaol. Mae pob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu hyfforddiant sylfaenol ar reoli ymddygiad ar gyfer staff addysgu a staff cymorth. Yn yr arfer orau, gwneir defnydd da o ddiwrnod cau ar ddechrau’r flwyddyn academaidd i atgoffa pob un o’r staff am weithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad.

Roedd pob un o’r staff a gafodd eu cyfweld yn teimlo eu bod wedi elwa ar hyfforddiant gloywi ar ddiogelu, ac roeddent yn hyderus ynglŷn â’u rolau a’u cyfrifoldebau mewn hyrwyddo lles disgyblion.

## Safbwyntiau disgyblion ar reoli ymddygiad

Ym mhob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd y disgyblion a gafodd eu cyfweld yn gadarnhaol iawn ynglŷn â’r ffordd y caiff eu hymddygiad ei reoli a faint o gynnydd y maent yn ei wneud mewn dysgu i osgoi gwrthdaro a datblygu strategaethau ar gyfer rheoli eu dicter. Mae enghreifftiau lle mae disgyblion yn credu mai’r lefelau uchel o gymorth ac arweiniad a gânt sy’n eu galluogi i aros yn yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi’r cymorth a gânt gan staff ac yn gwerthfawrogi eu dull hyblyg. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o reolau, cosbau a gwobrau’r ysgol ac o’u cyfrifoldebau eu hunain. Mewn un ysgol, mae addysgu ac ymddygiad yn eitemau rheolaidd ar yr agenda ar gyfer y cyngor ysgol, ac mae disgyblion yn gwneud arsylwadau aeddfed am reoli ymddygiad.

## Argymhellion

Dylai awdurdod lleol Sir Benfro:

- fwrw ymlaen â'u cynlluniau i sicrhau bod y man chwarae meddal/'seibiant' ger swyddfa'r pennaeth mewn un ysgol yn cael ei ddychwelyd i'w ddefnydd gwreiddiol fel stordy a gweithio gyda'r ysgol i archwilio mwy o opsiynau priodol ar gyfer darpariaeth synhwyraidd ychwanegol;
- gweithio gyda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) i arfarnu pa mor effeithiol y caiff eu polisïau a'u dulliau hyfforddi mewn perthynas â defnyddio ymdriniaeth gadarnhaol eu rhoi ar waith gan ysgolion;
- cwblhau'r arweiniad drafft i ysgolion ar ddefnyddio a monitro mannau 'seibiant'; a
- gwneud yn siŵr bod rheolwyr ysgol perthnasol yn cael gwybod yn gyson am gynnydd ymchwiliadau i honiadau o gam-drin proffesiynol.

Dylai ysgolion:

- ymateb i'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith a'r meysydd i'w gwella a argymhellwyd gan arolygwyr;
- cofnodi unrhyw achosion lle'r oedd angen defnyddio grym corfforol gyda disgyblion;
- cynnwys mwy o fanylion mewn polisïau sy'n ymwneud ag ymdriniaeth gadarnhaol ar sut i ddelio â chwynion;
- bod yn fwy trylwyr wrth ddefnyddio cynlluniau ymdriniaeth gadarnhaol fel eu bod yn cynnwys digon o fanylion, yn llywio achosion yn y dyfodol, yn cael eu monitro ac wedi'u cysylltu â ffeiliau addysg eraill disgyblion;
- storio gwybodaeth am ddiogelu am ddisgyblion unigol mewn un ffeil er mwyn gallu nodi patrymau;
- monitro, arfarnu ac adolygu arferion rheoli ymddygiad o ddydd i ddydd yn rheolaidd;
- rhoi arweiniad cliriach i staff ar newid y defnydd a wneir o ystafelloedd neu leoedd ychwanegol;
- gwneud yn siŵr bod yr holl gyfnodau 'seibiant' yn cael eu cofnodi a bod ansawdd y cofnodion a gedwir yn dda;
- gwneud defnydd gwell o ddata i lywio a gwella rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol;
- gwneud defnydd gwell o'r amser y mae disgyblion yn ei dreulio'r tu allan i'r ystafell ddosbarth pan fyddant yn camymddwyn i ddarparu gwaith sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm;
- gwneud yn siŵr bod trefniadau ar gyfer goruchwylio cyfnodau 'seibiant' yn briodol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i weithdrefnau diogelu;
- gwella'r mannau a ddefnyddir ar gyfer cyfnodau 'seibiant' neu fel ystafelloedd synhwyraidd i'w gwneud yn addas at eu diben;
- gwneud yn siŵr bod yr arfer a'r iaith a ddefnyddir gan staff o ran ymddygiad a chosbau yn cyd-fynd ag ethos cadarnhaol y polisïau ymddygiadol; ac
- adrodd am achosion ac unrhyw ddadansoddiad cysylltiedig wrth lywodraethwyr, ac wrth rieni, lle bo'n briodol.

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Claire Yardley AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Marya Shamte AGGCC | Arolygydd Tîm |
| Bev Jenkins AEM | Arolygydd Tîm |
| Jassa Scott AEM | Golygydd |